

GRIFFITH, WILLIAM JOHN (1875 - 1931), awdur Storiâu'r Henllys Fawr

Enw: William John Griffith
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1931
Rhiant: Margaret Griffith
Rhiant: Thomas Lewis Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur Storiâu'r Henllys Fawr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Edward Morgan Humphreys

Ganwyd ym Mwan, Aberffraw, Môn, 15 Medi 1875, mab Thomas Lewis Griffith, amaethwr a phrisiwr tir, a Margaret Griffith, Bwan. Aeth y teulu i fyw i fferm Cefn Coch, Llansadwrn, ger Biwmares, ac yno y bu W. J. Griffith yn byw nes bod yn 24 mlwydd oed. Addysgwyd ef yn ysgol Llansadwrn, ac ysgol ramadeg Biwmares; enillodd ysgoloriaeth amaethyddol i Goleg y Brifysgol, Bangor, a chymerodd y cwrs byr yno. Symudodd y tad i'w hen gartref, Henllys Fawr, Aberffraw, gan adael W. J. Griffith i ofalu am Gefn Coch, ond ymhen rhyw dair blynedd symudodd yntau i'r Henllys Fawr, lle bu'n byw weddill ei oes. Ymunodd â'r fyddin yn 1914, a rhyddhawyd ef yn 1916, ar farwolaeth ei dad, i ofalu am y fferm. Yr oedd yn amaethwr medrus. Bu farw 7 Hydref 1931. Ni bu yn briod. Dechreuodd ysgrifennu dramodau byrion at wasanaeth cwmnïau lleol yn weddol gynnar ond ni ddaeth i amlygrwydd nes i'w storiâu byr, hynod ddigrif, ymddangos yn *Y Genedl Gymreig*. Enillodd wobwr eisteddfod *Y Genedl* gyda'i stori, 'Eos y Pentan,' yn 1924. Ymhen y flwyddyn cyhoeddwyd ei 'Yr Hen Siandri' yn yr un papur, ac o hynny ymlaen yr oedd ei le yn sicr. Ysgrifennodd bum stori arall i'r *Genedl*, ac amryw ysgrifau. Yn 1938 cyhoeddwyd y storiâu yn llyfr, wedi eu golygu gan [T. Rowland Hughes](#), dan y teitl *Storiâu'r Henllys Fawr* (Gwasg Aberystwyth). Yr oedd ei hiwmor yn ogleisiol, ond nid digrifwch yn unig sydd yn ei waith. Ceir yn y storiâu awyrgylch bywyd gwlad a sylfaen o athroniaeth a sylwadaeth y gwladwr.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol a gwybodaeth a gafwyd gan ei chwaer, Mrs. Prys Owen

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William John Griffith](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [71164497](#)

Wikidata: [Q13132358](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

